**Cyfeirnod:** IR915

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Mai 2024

## 915 Adroddiad archwilio datblygu Cei y De Cyngor Sir Penfro

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch e-bost dyddiedig 5 Ebrill 2024 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) ynglŷn ag Adroddiad Archwilio a gyfarwyddwyd gan Gyngor Sir Penfro ynglŷn â Datblygu Cei'r De, Penfro.

Gallaf nawr gadarnhau ein bod yn cadw'r adroddiad rydych chi'n cyfeirio ato.

Rwy'n atal yr adroddiad rhag datgelu o dan reoliad 12(5)(d) o EIR 2004, sy'n diogelu cyfrinachedd trafodion, pan ddarperir y gyfrinachedd hwnnw gan y gyfraith. Mae adran 54 (1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi 'cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth' – a thrwy hynny wahardd datgelu gwybodaeth ynghylch person arall neu gorff a geir wrth gynnal archwiliad neu astudiaeth, ac eithrio o dan yr amodau a osodir yn is-adran (2). Nid oes unrhyw un o'r amgylchiadau hynny yn cael eu bodloni yn yr achos hwn, felly mae datgelu wedi'i wahardd a byddai'n drosedd. Fel y cyfryw, byddai datgelu'r wybodaeth hon yn effeithio'n andwyol ar gyfrinachedd trafodion mewn perthynas ag archwilio ac rwyf wedi dod i'r casgliad bod cydbwysedd budd y cyhoedd yn erbyn datgelu o dan yr EIR.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth